**LGBC6M/2000**

**COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU**

**COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 8fed AWST 2000 AM 10.30 YN NHŶ CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE**

**Yn bresennol:**

| **Y Comisiwn** | **Yr Ysgrifenyddiaeth** |
|---|---|
| Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)<br>Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)<br>Mrs S Smith (Aelod) | Mr R Knight (Ysgrifennydd)<br>Mr D Carr<br>Mr C Chapman<br><br>Mr F Cuthbert (Is-adran Rheoli Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru)<br><br>Mr G Finnis (Broomfield & Alexander) |

**1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 5ed Mehefin 2000.**

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd i'w rhyddhau i'w cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

**2. Materion yn codi.**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Cuthbert o Is-adran Rheoli Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a oedd yn bresennol fel rhan o arolwg polisi'r Cynulliad Cenedlaethol o'r Comisiwn.

2.2 Nododd yr Ysgrifennydd y cynhwyswyd cyfeiriadau at Bwyllgor Archwilio a gweithdrefn gwyno ffurfiol y Comisiwn yn Adroddiad Blynyddol 1999/00.

2.3 Lluniwyd ymateb drafft i lythyr y Prif Ysgrifennydd ar y Cod Ymarfer ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth gan yr Ysgrifennydd ac fe'i trosglwyddwyd i'r Comisiynwyr i'w gymeradwyo.

2.4 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi trefnu i ymweliad safle o safle cais am arolwg Casnewydd/Tor-faen gael ei gynnal ar ôl cyfarfod y Comisiynwyr â Mr Peter Law ar 30 Awst 2000.

2.5 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cysylltu â Mr John Stephens o'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol. Roedd Mr Stephens wedi cytuno i roi gwybod i'r Comisiwn pryd y byddai'r seminar arweiniad nesaf ar y ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal er mwyn i'r Ysgrifennydd fod yn bresennol. Roedd wedi addo anfon gwybodaeth at yr Ysgrifennydd hefyd yn cwmpasu'r agweddau ar y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i waith y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon at y Comisiynwyr cyn gynted ag yr oedd ar gael.

## 3. Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg - ystyried cynrychioliadau.

3.1 Nododd y Cadeirydd fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal arolwg pellach o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bro Morgannwg tua dwy flynedd ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno eu Cynigion Terfynol ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer Bro Morgannwg i'r Swyddfa Gymreig.

3.2 Wrth gynnal yr arolwg gwreiddiol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bro Morgannwg, dilynodd y Comisiwn gyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol drwy greu rhanbarthau un aelod lle bo'n bosibl. Teimlwyd bod y cyfarwyddiadau hyn yn ddilys o hyd er y cydnabuwyd y byddai creu rhanbarthau un aelod a oedd wedi'u cyfyngu i ddilyn ffiniau cymunedau a wardiau cymunedau presennol ymron yn anochel yn creu rhywfaint o anghysondeb o ran lefelau'r gynrychiolaeth.

3.3 Teimlai'r Cadeirydd y byddai newid cynigion gwreiddiol y Comisiwn o ranbarthau etholiadol un aelod i rai aml-aelod yn galw am rywfaint o gefnogaeth y cyhoedd. Nododd yr Ysgrifennydd fod y cynrychioliadau cychwynnol wedi dangos mwy o gefnogaeth i ranbarthau aml-aelod mewn rhai cymunedau nag eraill.

### Y Bont-faen

3.4 O ran Cymunedau'r Bont-faen gyda Llanfleiddan, Llanfair a Phenllyn nodwyd na dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn mynegu y byddai rhanbarth aml-aelod yn well. Pe cedwid rhanbarth etholiadol aml-aelod presennol y Bont-faen gyda thri aelod, dangosai'r ffigurau a ragwelwyd ar gyfer yr etholaeth ar gyfer 2005 y byddai ei hawl i gynghorwyr yn gostwng o 2.78 i 2.49 gan olygu y byddai'n cael ei orgynrychioli. Fodd bynnag pe crëwyd tri rhanbarth etholiadol un aelod, fel y cynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn, dangosai'r ffigurau a ragwelwyd ar gyfer yr etholaeth ar gyfer 2005 y byddai hawl gan bob un o'r tri rhanbarth i un cynghorydd yr un o hyd.

3.5 **Cytunwyd** y dylai Cymunedau'r Bont-faen gyda Llanfleiddan, Llanfair a Phenllyn lunio tri rhanbarth un aelod fel y cynigiwyd yn adroddiad gwreiddiol y Comisiwn ar Gynigion Terfynol ar gyfer Bro Morgannwg:

i) Roedd rhanbarth un aelod y Bont-faen yn cynnwys wardiau'r Bont-faen a Gorllewin Llanfleiddan yng Nghymuned y Bont-faen gyda Llanfleiddan.
ii) Roedd rhanbarth un aelod Dwyrain Llanfleiddan yn cynnwys Cymuned Llanfair a ward Dwyrain Llanfleiddan yng Nghymuned y Bont-faen gyda Llanfleiddan.
iii) Roedd rhanbarth un aelod Penllyn yn cynnwys Cymuned Penllyn a ward Aberthin yng Nghymuned y Bont-faen gyda Llanfleiddan.

### Y Rhŵs

3.6 Roedd y Comisiwn wedi derbyn un cynrychioliad, gan Gyngor Cymuned Llancarfan, o blaid cadw rhanbarth etholiadol aml-aelod presennol y Rhŵs. Teimlai'r Comisiwn nad oedd hyn yn dystiolaeth ddigonol o gefnogaeth gan y cyhoedd i gadw rhanbarth aml-aelod presennol y Rhŵs a nododd y byddai lefel y gynrychiolaeth rhwng dau ranbarth un aelod yn gyffredinol gyfartal.

3.7 **Cytunwyd** y dylai Cymunedau'r Rhŵs a Llancarfan lunio dau ranbarth un aelod fel y cynigiwyd yn adroddiad gwreiddiol y Comisiwn ar y Cynigion Terfynol ar gyfer Bro Morgannwg:

i) Roedd rhanbarth un aelod Ceri yn cynnwys Cymuned Llancarfan a wardiau Ceri, Penmarc a Phorthceri yng Nghymuned y Rhŵs.
ii) Roedd rhanbarth un aelod Ffontygari yn cynnwys wardiau Aberddawan, Fonmon a Ffontygari yng Nghymuned y Rhŵs.

**Dinas Powys**

3.8 Roedd y Comisiwn wedi derbyn cynrychioliadau gan Gyngor Cymuned Dinas Powys, tri chynghorydd sir a changen Plaid Cymru Dinas Powys, oll o blaid cadw rhanbarth etholiadol aml-aelod presennol Dinas Powys. Yn wreiddiol cynigiodd y Comisiwn y dylai rhanbarth aml-aelod Dinas Powys gael ei rannu'n dri rhanbarth un aelod o'r enw Murch, Cross Common a Thwyn. Fodd bynnag nodwyd bod y ffigurau etholiadol ar gyfer 2000 yn dangos y byddai anghysondeb mawr o ran lefel y gynrychiolaeth rhwng rhanbarth Murch gyda hawl i gynghorwyr o 1.45 a rhanbarthau Cross Common a Thwyn gyda hawl i gynghorwyr o 1.12 a 0.86. Nodwyd hefyd bod yr etholaeth a ragwelwyd yn dangos y byddai gan Murch hawl i ddau gynghorydd erbyn 2005.

3.9 **Cytunwyd** y dylid cadw rhanbarth etholiadol aml-aelod Dinas Powys, yn cynnwys Cymunedau Dinas Powys a Llanfihangel-ynys-Afan gyda phedwar aelod.

**Llanilltud Fawr**

3.10 Derbyniwyd cynrychioliadau yn ymwneud â rhanbarth etholiadol Llanilltud Fawr gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr ac un o drigolion Llanilltud Fawr, y ddau ohonynt o blaid y rhanbarth aml-aelod presennol. Nodwyd bod cynnig gwreiddiol y Comisiwn i rannu'r rhanbarth aml-aelod presennol yn bedwar rhanbarth un aelod yn creu anghysondeb o ran y gynrychiolaeth rhwng rhanbarthau Trebeferad a Gogledd Llanilltud Fawr, gyda hawl i gynghorwyr o 1.28 a 1.29, a rhanbarthau De Ddwyrain Llanilltud Fawr a Gorllewin Llanilltud Fawr gyda hawl i gynghorwyr o 0.75 a 0.65.

3.11 **Cytunwyd** y dylai Cymunedau Llanilltud Fawr, Llanmaes a Sant Dunwyd ffurfio rhanbarth aml-aelod gyda phedwar cynghorydd.

3.12 **Cytunwyd** y dylid llunio drafft o'r adroddiad ar y Cynigion Drafft ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ym mis Medi.

## 4. Arolwg o'r ffin rhwng Ceredigion a Sir Benfro yn ardal Llandudoch - ystyried cynrychioliadau

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i gam cychwynnol yr arolwg. Nodwyd bod y cynrychioliadau yn dangos cefnogaeth bron yn unfrydol ar gyfer uno pentref Llandudoch a'r tir cyfagos o fewn yr un awdurdod unedol. Daeth mwyafrif y cynrychioliadau hyn oddi wrth aelodau o'r cyhoedd ac roeddent o blaid cyfuno Llandudoch a'r ardal gyfagos o fewn Sir Benfro.

4.2 Ystyriodd y Comisiwn adlinio'r ffin bresennol i'r gogledd a'r de o bentref Llandudoch fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Penfro a Chyngor Cymuned Llandudoch. Byddai hyn yn

trosglwyddo ardaloedd i'r gogledd a'r de o bentref Llandudoch o Geredigion i Sir Benfro. Nododd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd ymweliad safle i arolygu llinell y ffiniau arfaethedig hyn ac y canfuwyd bod y ddwy wedi'u diffinio'n glir ar y ddaear. Nodwyd y byddai adlinio'r ffin yn y fath fodd, er trosglwyddo ardal i dde ddwyrain pentref Llandudoch o Geredigion i Sir Benfro, yn parhau i ganiatáu i dref Aberteifi ehangu i'r de yn ardal Bridgend. Byddai'r brif ffordd sy'n rhedeg i'r de o Aberteifi hefyd yn parhau'n llwyr o fewn Ceredigion gan ganiatáu ar gyfer unrhyw ehangu cynlluniedig i'r de. Nodwyd hefyd mai'r unig ffordd i fynd o Geredigion i'r ardal i'r gogledd o bentref Llandudoch oedd drwy Sir Benfro.

4.3 Nodwyd gwrthwynebiadau Cyngor Tref Aberteifi gan y byddent yn colli refeniw pe byddai'r ffin yn cael ei hadlinio yn y fath fodd. Fodd bynnag ystyriwyd y byddai trigolion Llandudoch yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau a siopau yn Aberteifi ac na fyddai'r dref yn colli'r ffynhonnell benodol honno o incwm. Yn eu barn hwy, ni fyddai'r refeniw a gollwyd yn sgîl trosglwyddo 300 o etholwyr o Geredigion i Sir Benfro yn cael effaith arwyddocaol ar lefel darpariaeth gwasanaethau Cyngor Tref Aberteifi. Hefyd ni fyddai colli 300 o etholwyr yn cael unrhyw sgîl-effeithiau ar y gynrychiolaeth o ran cynghorwyr sir yn Aberteifi.

4.4 Ystyriodd y Comisiwn yr adliniad arfaethedig i'r ffin bresennol i'r gorllewin o bentref Llandudoch a awgrymwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberteifi. Roedd Cyngor Tref Aberteifi wedi cynnig adlinio'r ffin bresennol yn Nhraeth Poppit hefyd er mwyn dod ag aber cyfan afon Teifi o fewn Ceredigion. Nododd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd ymweliad safle i arolygu llinell y ffiniau arfaethedig hyn ac y canfuwyd eu bod wedi'u diffinio'n glir ar y ddaear. Nodwyd y byddai adlinio'r ffin yn y fath fodd yn dod â phoblogaeth sydd y tu allan i Geredigion ar hyn o bryd i Aberteifi ond y byddai'r boblogaeth honno yn boblogaeth sy'n defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yn Nhref Aberteifi. Fodd bynnag, teimlwyd bod cryfder y teimladau ymhlith trigolion Llandudoch yn erbyn trosglwyddo'r pentref i Geredigion yn mynd yn erbyn newid o'r fath i'r ffin bresennol.

4.5 Gwrthodwyd yr adliniad a awgrymwyd i'r ffin bresennol yn Nhraeth Poppit a gynigiwyd gan Gyngor Tref Aberteifi am y rheswm ychwanegol ei fod yn effeithio ar ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro gan greu anawsterau gweinyddol i'r awdurdod hwnnw.

4.6 O ran y cynrychioliad hwyr gan Sir Benfro yn cynnig y dylid trosglwyddo ardal ychwanegol i'r de ddwyrain o Landudoch o Geredigion i Gymuned Cilgerran yn Sir Benfro, teimlwyd nad oedd digon o dystiolaeth ar hyn o bryd o gefnogaeth er mwyn datblygu'r cynnig hwn ac felly y dylid gwahodd sylwadau arno yn yr adroddiad ar y Cynigion Drafft.

4.7 **Cytunwyd** y dylai'r Cynigion Drafft gynnig newid i'r ffin bresennol i'r gogledd a'r de o bentref Llandudoch yn unol â'r hyn a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Llandudoch gyda chefnogaeth Cyngor Sir Benfro.

**5. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Clunderwen a Gorllewin Llandysilio - ystyried materion yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau.**

5.1 Ystyriodd y Comisiwn fanylion y ddarpariaeth gwasanaeth i'r ardal gan Gyngor Sir Benfro a Chyngor Sir Gaerfyrddin. Nodwyd fod y ddau awdurdod yn hyderus y byddent yn gallu darparu gwasanaethau effeithlon i'r ardal.

5.2 Teimlwyd, er y byddai'n ddymunol i Glunderwen a Gorllewin Llandysilio fod yn yr un awdurdod a bod Cyngor Sir Benfro eisoes yn cyflwyno rhai gwasanaethau i Glunderwen, roedd y trefniadau gweinyddol presennol yn opsiwn o hyd.

5.3 **Cytunwyd** y dylid trefnu cyfarfod cyhoeddus gyda Chyngor Cymuned Clunderwen i gael syniad o lefel y gefnogaeth gan y cyhoedd i drosglwyddo Clunderwen i Sir Benfro. Dylai'r cyfarfod hefyd fod yn agored i Gynghorwyr Cymuned Gorllewin Llandysilio. Pennwyd dyddiad dros dro ar gyfer y cyfarfod, sef 17 Hydref 2000 am 6.30pm.

## 6. Cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal arolwg o Gymunedau Llangollen a Llandysilio yn Sir Ddinbych a Chymunedau Penycae, Cefn, Llangollen Wledig, Y Waun, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

6.1 Nododd y Comisiwn y cyfarwyddiadau ar gyfer yr arolwg a gyflwynwyd iddynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig pwynt 4c yn datgan y dylid ystyried effaith unrhyw gynigion ar Sir Ddinbych. Nodwyd bod Prif Weithredwr Sir Ddinbych wedi mynegi pryder am benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal yr arolwg hwn a chynigiodd y dylid gwneud cais am arolwg barnwrol. Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi gwneud ymholiadau o ran goblygiadau posibl arolwg barnwrol i'r Comisiwn gyda Roland Phillips o adran Cyfreithwyr y Trysorlys a oedd wedi cynghori mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai hyn ac nid mater i'r Comisiwn.

6.2 Trafododd y Comisiwn yr adnoddau fyddai eu hangen i ddiwallu gofynion y cyfarwyddiadau a chyflwynodd yr Ysgrifennydd bapur yn nodi'r ymgynghorwyr posibl y gallai'r Comisiwn eu contractio i asesu effaith ariannol unrhyw newidiadau yn sgîl yr arolwg ar Sir Ddinbych. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trafod y gwaith o lunio brîff gyda Mrs Smith ac yn ei anfon at ddarpar ymgynghorwyr yn amlinellu gofynion y Comisiwn ac yn eu gwahodd i fynegi diddordeb i dendro. Nododd yr Ysgrifennydd, er mwyn cwrdd â'r baich gwaith ychwanegol a grëir gan yr arolwg, fod cais wedi ei wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol i aelod ychwanegol o'r staff ar lefel Swyddog Gweithredol gael ei secondio i'r Comisiwn am flwyddyn.

6.3 **Cytunwyd** o ganlyniad i amserlen yr arolwg y dylai'r Comisiwn ddechrau ar y cam cychwynnol. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiynwyr gwrdd â Phrif Weithredwr Sir Ddinbych a Phrif Weithredwr Wrecsam i egluro sut mae'r Comisiwn yn gweithio a sut y cynhelir yr arolwg.

## 7. Cyflwyno Cyfrifon Blynyddol 1999/2000 gan Mr Glen Finnis (Broomfield & Alexander).

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Finnis a gofynnodd iddo gyflwyno cyfrifon y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999/00.

7.2 Eglurodd Mr Finnis fod y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol wedi archwilio cyfrifon y Comisiwn ac er nad oeddent wedi cynhyrchu eu hadroddiad archwilio eto roeddent wedi nodi y gellid ystyried bod y ffigurau yn rhai terfynol. Yn gyffredinol, roedd y ffigurau yn adlewyrchu'r lleihad mewn gweithgaredd ar gyfer y Comisiwn gan nodi gostyngiadau o ran costau staff a chostau gweithredu. Roedd costau adeiladau hefyd wedi gostwng yn bennaf o

ganlyniad i ostyngiad o ran taliadau gwasanaeth. Dau newid a weithredwyd oedd hepgor y tâl tybiannol am yswiriant a chynnwys adran yn cwmpasu pensiynau uwch staff.

7.3 Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig nodi bod gwariant y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ymhell o fewn y dyraniad grant-mewn-cymorth a oedd yn nodi, ynghyd â'r grant-mewn-cymorth o £125,000 a ildiwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 1999/00, bod y Comisiwn wedi trin ei wariant yn effeithlon. Diolchodd i Mr Finnis am ei gyflwyniad.

**8. Adroddiad Cyllidebol ar gyfer Chwarter 1af 2000/01.**

8.1 Cyflwynodd Mr Carr yr adroddiad cyllidebol ar gyfer chwarter cyntaf 2000/01.

8.2 Derbyniodd y Comisiwn yr adroddiad.

**9. Trefniadau ar gyfer cyfarfod gyda Mr Law, yr Ysgrifennydd Cynulliad, 30ain Awst 2000.**

9.1 Hysbyswyd y Comisiwn gan yr Ysgrifennydd bod disgwyl i'w cyfarfod gyda Mr Law ddechrau am 11.45am a dod i ben am 12.45pm. Awgrymodd y byddai'n bosibl cynnal cyfarfod byr yn Nhŷ Caradog am 10.30am cyn eu cyfarfod gyda Mr Law er mwyn trafod yr arolwg polisi a materion ad-hoc eraill.

9.2 Ar ôl y cyfarfod gyda Mr Law byddai'n bosibl cynnal ymweliad safle o ardal y ffin rhwng Casnewydd a Thor-faen yn Llantarnam.

**10. Trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Agored Blynyddol ar 10fed Hydref 2000.**

10.1 Cyflwynodd Mr Chapman yr amserlen ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'r Comisiwn.

**11. Unrhyw Fusnes Arall.**

11.1 Pennwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Comisiwn fel a ganlyn:
13 Medi 2000 am 10.15am
26 Hydref 2000 am 2.15pm
21 Tachwedd 2000 am 10.30am
13 Rhagfyr 2000 am 10.30am